Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 9 Mawrth 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | M Durke |
| C A Holley | Y V Jardine | E T Kirchner |
| W G Lewis | D W W Thomas | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Eve Davis | Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Elliott King | Aelod y Cabinet, Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Jay McCabe | Prif Swyddog - Gwasanaethau'r Glasoed a Phobl Ifanc |
| Kate Phillips | Pennaeth Dysgwyr Diamddiffyn |
| Helen Williams | Rheolwr Arfer Cyfiawnder Ieuenctid |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): K M Griffiths

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatgeliadau.

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2022 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Cyflwyniad - Cyfarwyddyd ynghylch yr Ymchwiliad Annibynnol i'r Adroddiad am Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA): Rhwydweithiau Trefnedig sy'n Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant**

Roedd Julie Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn bresennol i gyflwyno'r eitem hon ac ateb cwestiynau'r panel. Roedd Eve Davies, Uwch-arolygydd Heddlu De Cymru a Kate Phillips, Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Dysgwyr Diamddiffyn yn yr adran Addysg yn bresennol hefyd ar gyfer yr eitem hon.

Pwyntiau Trafod:

- Mae'r adran yn llwyr gefnogi argymhellion yr adroddiad.
- Dywedodd yr Uwch-arolygydd, o safbwynt plismona, eu bod yn cydnabod yr adroddiad a'i ganfyddiadau a'u bod yn gwneud rhywfaint o gynnydd o ran y dysgu a nodwyd a'r cynllunio ar gyfer gweithredu i ymateb iddo.
- Mae adroddiad blynyddol yn cael ei lunio ar gyfer camfanteisio a diogelu. Awgrymodd swyddogion fod hyn yn cael ei ychwanegu at raglen waith y flwyddyn nesaf.
- Roedd y Panel yn pryderu am ganlyniadau a gofynnon nhw a oedd yr Adran yn hyderus bod cymaint â phosib ar waith i nodi'r achosion hyn ac ymdrin â nhw, ac os yw achosion yn dod i'r amlwg na fyddent o bosib wedi bod yn ddisgwyliedig yn y gorffennol. Fe'u hysbyswyd bod yr Adran yn hyderus eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau unwaith eu bod wedi mynd i'r afael â'r risgiau. Hefyd, fe'u hysbyswyd bod pethau'n cael eu cyfeirio i mewn a bod yr Adran yn brysur iawn.
- Holodd y panel a yw COVID wedi achosi rhagor o broblemau h.y. gyda'r cyfyngiadau symud, nid yw plant wedi bod yn yr ysgol ac a yw hyn wedi gwaethygu'r broblem yn y maes hwn. Fe'u hysbyswyd y cafwyd gwared ar rai o'r risgiau ynghylch camfanteisio troseddol gan nad oedd pobl yn cael mynd allan ond roedd mwy o gamfanteisio ar-lein. Ychwanegodd y Pennaeth Dysgwyr Diamddiffyn fod y pandemig yn amser anodd iawn. Roedd hi fwyaf anodd pan oedd ysgolion ar agor yn rhannol a phan gafwyd cyfnod o amser pan nad oedd rhai grwpiau blwyddyn yn yr ysgol.
- Dywedodd y Panel, ar gyfer camfanteisio teuluol, na fyddai rhai teuluoedd eisiau adrodd am hyn ac y bydd y plentyn yn gwneud yr hyn y mae ei deulu'n dymuno. Teimlai'r Panel fod angen ystyried yr hyn y mae'r plentyn yn ei feddwl, ond yn y pen draw, rhaid gwneud yr hyn sydd orau i'r plentyn. Ymatebodd swyddogion nad yw cam-drin o fewn y cartref yn nodwedd o'r adroddiad hwn ond mewn perthynas â hyn, efallai fod plant yn ofni cyflwyno'u hunain. Mae plant yn dechrau dweud wrth bobl am gam-drin pan fônt yn teimlo'n ddiogel, ac mae hyn yn aml yn digwydd pan fyddant yn yr ysgol.
- Dywedodd y Panel fod gan yr awdurdod bartneriaeth waith ag EYST (Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru) ond dim ond un sefydliad yw hwn felly nid yw'n wir gynrychioliad. Holodd y Panel pwy fydd yn eistedd ar y grŵp BAME newydd a grybwyllwyd yn y cyflwyniad. Cytunodd swyddogion, o ran y grŵp BAME, ei bod hi'n bwysig edrych ar bwy sy'n rhan ohono ac mae angen bod amryfal leisiau, ac ni all un sefydliad gynrychioli pawb.
- Ychwanegodd y Panel fod angen ymdrin â'r person o'ch blaen, ni waeth beth yw ei hil etc. Cytunodd swyddogion y dylem edrych ar y person ac nid ei liw, ei

rywedd etc., ond roeddent hefyd yn teimlo bod gweithwyr 'drws ffrynt' yr Adran yn eu helpu i ddeall diwylliannau gwahanol, sy'n wirioneddol bwysig.
- Teimlai'r Panel hefyd o ran datrysiadau, fod rhai o'r ymyriadau mwyaf llwyddiannus yn ymwneud â gweithio amlasiantaeth a phan fo cymunedau'n deall meddwl y camdriniwr, a dywedwyd bod y Gwasanaethau Cymdeithasol, ers blynyddoedd, wedi hyrwyddo hyfforddiant a oedd yn ymwneud â deall meddwl y troseddwr a'r hyn y gallant ei wneud amdano.  Holodd y Panel a yw'r Adran yn ystyried parhau â'r math hwn o hyfforddiant a'i raeadru.  Cytunodd swyddogion i ddarparu manylion hyfforddiant i staff yn benodol a hyfforddiant amlasiantaeth yn dilyn y cyfarfod.
- Holodd y Panel am ffigur yn y cyflwyniad o 6 achos o gamfanteisio yn y 18 mis diwethaf a gofynnwyd a oedd hyn yn gywir. Dywedwyd wrthynt fod y rhain yn 6 achos o fath arbennig ac roedd yn ymgais i ddarparu rhywfaint o dawelwch meddwl i'r Panel. Awgrymodd swyddogion y dylid dod ag adroddiad ehangach am ddata perfformiad i gyfarfod Panel yn y dyfodol fel bod gan y Panel ddealltwriaeth o'r darlun ar draws Abertawe a beth mae hyn yn ei ddweud am y risgiau ar draws Abertawe.
- Sicrhawyd y Panel gan y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith ac sy'n cael eu rhoi ar waith yn awr.

Camau Gweithredu:
- Bydd y Panel yn ystyried ychwanegu Adroddiad Blynyddol am Gamfanteisio a Diogelu at raglen waith y flwyddyn nesaf.
- Bydd manylion unrhyw hyfforddiant amlasiantaeth ac ar gyfer staff ar ddeall meddwl y camdriniwr a'r hyn i wneud amdano, a gwybodaeth amdano, yn cael eu rhaeadru a'u darparu i'r Panel.

6 **Cyflwyniad - Adroddiad Arolygu Cyfiawnder Ieuenctid**

Roedd Jay McCabe, Prif Swyddog Gwasanaethau'r Glasoed a Phobl Ifanc yn bresennol i gyflwyno'r eitem hon ac i ateb cwestiynau'r Panel.  Roedd Helen Williams, Rheolwr Arfer Cyfiawnder Ieuenctid, hefyd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon Clywodd y Panel fod y trefniad rhanbarthol wedi cael ei arolygu ym mis Hydref 2018 gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac wedi cael ei raddio'n 'annigonol'.  Gwnaed gwelliant sylweddol dros y tair blynedd ers hynny ac mae trefniad Abertawe wedi symud i'r raddfa 'angen gwelliant pellach'.

Pwyntiau Trafod:
- Cymeradwywyd y cynllun gwella'n llawn gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gofynnodd swyddogion iddo ddod yn ôl i'r tîm Craffu ymhen chwe mis er mwyn i'r Panel gael diweddariad.  Teimlai'r Panel fod y gwasanaeth wedi gwella tipyn dros dair blynedd a bydd yn parhau i fonitro'r gwelliant.
- Cynhelir adolygiad o systemau'r gwasanaeth cyfan o fis Mawrth 2022.  Bydd plant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith i helpu i lunio ac aildrefnu'r gwasanaeth.
- Pwysleisiodd swyddogion bwynt pwysig am sylwadau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar y Biwro.  Nid oedd ganddynt bryderon ynghylch canlyniadau'r achosion yr edrychon nhw arnynt.

- Caiff aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid eu gwahodd i ymweld â'r gwasanaeth a siarad â staff a phobl ifanc.  Mae'r cynnig i ymweld â'r gwasanaeth wedi'i estyn i Aelodau'r Panel Craffu.
- Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn buddsoddi mewn prynu adeilad newydd yn Abertawe i helpu i ddarparu gwasanaethau wedi'u cydleoli a chynyddu gallu.
- Rhyddhawyd datganiad i'r wasg pan gyhoeddodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ei hadroddiad arolygu.  Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhannu'r datganiad i'r wasg hwn â'r Panel.

Camau Gweithredu:

- Bydd y Panel yn ystyried ychwanegu Cynllun Gwella'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid at y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.
- Bydd Aelodau'r Panel yn hysbysu'r Swyddog Craffu os oes diddordeb mewn ymweld â'r gwasanaeth.
- Caiff y datganiad i'r wasg ei gylchredeg i'r Panel er gwybodaeth.

7 **Diweddariad Llafar ar Staffio mewn Argyfwng**

Rhoddwyd diweddariad i'r Panel ar y sefyllfa gyfredol gan Julie Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Ychydig iawn o newid a fu i'r sefyllfa o ran cyflogi gweithwyr cymdeithasol ac eithrio rhywfaint o duedd gadarnhaol. Gwnaed penderfyniad i recriwtio rhagor o weithwyr cefnogi sydd wedi cael effaith  gadarnhaol sef llai o bwysau ar weithwyr cymdeithasol. Yn y tymor hwy, os yw'r broblem gyda gweithwyr cymdeithasol yn parhau, bydd angen penderfynu ar yr hyn i'w wneud yn strategol yn Abertawe ac ar lefel Llywodraeth Cymru.

Hysbyswyd y Panel y bydd y broses adrodd yn llawn am berfformiad wrth yr adran Graffu'n ailgychwyn yn y flwyddyn ddinesig newydd.

8 **Adolygiad Panel y Flwyddyn 2021-22**

Adolygodd Aelodau'r Panel y flwyddyn 2021-22 a thrafodwyd y cwestiynau canlynol.

<u>Beth aeth yn dda?</u>

- Yr agwedd bwysicaf ar wasanaeth cyhoeddus yw cefnogi gwaith y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Nid yw'r Panel erioed wedi bod yn hunanfodlon. Mae holl aelodau'r Panel yn rhagweithiol iawn ac yn canolbwyntio'n drylwyr ac fe'u cefnogir gan swyddogion. Mae'n anodd meddwl sut y gellir gwella hyn.
- Nid yw'r Panel wedi osgoi delio â materion anodd a bod yn heriol.
- Roedd ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau cleientiaid wedi gweithio'n dda - fideos gyda mamau ifanc a siarad â phlant a phobl ifanc yn uniongyrchol. Roedd yn bwerus iawn a helpodd y Panel i weld yr hyn y mae'r Adran yn ei wneud mewn gwirionedd yn yr amgylchiadau mwyaf heriol. Hoffent weld hyn yn parhau yn y dyfodol.

- Mae'r Adran yn gweithio'n well nawr nag y byddai fel arall oherwydd y Panel Craffu. Mae'r ffaith bod y Panel wedi bod yn trafod agweddau gwahanol ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'u bod yn flaenoriaeth iddynt wedi gwneud gwahaniaeth i effeithlonrwydd yr Adran. Os yw hyn wedi gwneud gwahaniaeth i blentyn, yna mae'r Panel wedi bod yn llwyddiannus.
- Mae wedi bod yn Banel Craffu cryf iawn. Rhaid canmol y Cadeirydd nad yw'n beirniadu ac sy'n ceisio gofyn cwestiynau da. Cryfder y Panel fu edrych ar bethau anodd a gweld y realiti oherwydd ei fod am wneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd.
- Mae'r hyn y mae'r Panel yn ei wneud yn ddefnyddiol. Mae wedi gweld sefyllfa lle mae'r Adran wedi mynd o fod mewn cyfyngder mawr i'r sefyllfa y mae ynddi heddiw. Rheolwyr a staff sydd, ac sydd wedi bod wrth wraidd hyn. Rôl y Panel oedd bod yn gyfaill beirniadol.
- Rhaid diolch a dangos gwerthfawrogiad i bawb sydd wedi cyfrannu at y Panel a diolch i'r Swyddog Craffu a'r holl dîm craffu am y gwaith caled maen nhw'n ei wneud.

<u>Beth nad oedd wedi gweithio cystal?</u>

- Nid oedd unrhyw beth nad oedd wedi mynd yn dda.

<u>A yw'r panel wedi canolbwyntio ar y pethau cywir?</u>

Ni nodwyd sylwadau.

<u>Beth rydym wedi'i ddysgu a fydd yn ein helpu i Graffu ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn y dyfodol?</u>

- Credir y dylai fod mwy o gyfarfodydd Panel y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn y dyfodol, gan ei fod mor bwysig a bod cynifer o bethau i'w trafod.
- Canlyniadau yw'r pwysicaf - pa effaith y mae hyn oll yn ei chael ar fywydau'r plant a'r bobl ifanc rydym yn gyfrifol amdanynt.
- Gwelir cysylltiadau rhwng y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Addysg. Hynod ddefnyddiol a chadarnhaol.
- Ni ddethlir yn ddigonol yr holl achosion sy'n cael eu cau bob mis oherwydd ymyriad rhagorol gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai mwy o'r gwersi hyn yn dod i'r amlwg.

Daeth y cyfarfod i ben yn 5.50 pm